



Newidiadau i Lwfansau Myfyrwyr Anabl

Beth yr oedd pobl yn ei ddweud



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion i Lwfansau Myfyrwyr Anabl'.

Gorffennaf 2020



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth **maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair**.



Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 34**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfeiriad: Medrau Is-adran Addysg
Uwch Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: HEDConsultationsMailbox@gov.wales



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Cyflwyniad.....	4
Beth yr oedd pobl yn ei ddweud.....	5
Cwestiwn 1. Ydych chi'n meddwl y buasai un grant cyffredinol yn well na phedwar grant gwahanol?.....	5
Cwestiwn 2. Ydych chi'n meddwl y gallai pecyn parod o gefnogaeth weithio ar gyfer myfyrwyr?.....	10
Cwestiwn 3. Pwy ddylai drefnu Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.....	17
Cwestiwn 4. Ydych chi'n meddwl y byddai codi ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn helpu mwy o bobl gael Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl?.....	23
Atebion eraill.....	28
Iaith Gymraeg.....	28
Unrhyw beth arall.....	30
Geiriau anodd.....	34

Cyflwyniad



Yn 2019 ysgrifennodd Llywodraeth Cymru am newidiadau y maen nhw'n meddwl eu gwneud i **Lwfansau Myfyrwyr Anabl**.



Gallwch chi ddarllen am hyn yma:
<https://llyw.cymru/newidiadau-i-lwfansau-myfyrwyr-anabl>



Mae **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn cefnogi pobl anabl i gael addysg uwch. **Grantiau** ydyn nhw.



Mae **grant** yn swm o arian y gallwch chi ei gael a does dim rhaid i chi ei dalu'n ôl.



Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bobl ddweud wrthyn nhw beth maen nhw'n feddwl am y newidiadau. Mae'r ddogfen hon ynglŷn â beth yr oedd pobl yn ei ddweud.

Beth yr oedd pobl yn ei ddweud

Cwestiwn 1. Ydych chi'n meddwl y buasai un grant cyffredinol yn well na phedwar grant gwahanol?



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud y buasai un **grant** yn well na phedwar **grant** gwahanol.



Ond y mae ar y rhan fwyaf o bobl eisiau cael **grant** teithio ar wahân o hyd.



Mae ar rai pobl eisiau grant arall ar wahân ar gyfer myfyrwyr sy'n gorfod prynu offer drud.

Roedd pobl yn dweud y byddai un grant yn dda oherwydd

- Mae'n helpu myfyrwyr sydd ag **anghenion cymhleth**



Gall person sydd ag **anghenion cymhleth**:

- gael mwy nag un anabledd
- fod â phroblemau iechyd
- fethu â defnyddio geiriau i siarad.



- Byddai **grantiau** yr un fath ar gyfer gwahanol lefelau o astudiaeth



- Mae'n haws i bawb ei ddeall. Ac mae'n rhatach ac yn haws i'w drefnu.



- Byddai'n gyflymach i wneud cais amdano.



- Buasai'n haws i fyfyrwyr ddefnyddio'r holl wahanol fathau o gefnogaeth. A buasen nhw'n gallu defnyddio'r grant ar y gefnogaeth sydd arnyn nhw ei hangen fwyaf.

Roedd pobl yn dweud y byddai un grant yn beth drwg oherwydd:



- Mae **grantiau** ar wahân yn ei gwneud hi'n haws i ddeall beth y gallwch chi wario arian arno



- Efallai y bydd un **grant** yn meddwl y bydd pobl yn gwario eu holl arian ar **help an-feddygol**. Er enghraifft astudio, medrau, tiwtoriaid a mentoriaid. Efallai y byddan nhw'n dibynnu gormod ar yr help hwn a ddim yn gwneud cymaint iddyn nhw eu hunain.



- Dylai myfyrwyr gael yr hawl i wario mwy o arian i brynu'r offer sydd eu hangen arnyn nhw.



- Efallai y bydd pethau'n waeth ar fyfyrwyr sydd angen prynu cyfarpar arbennig. Efallai y bydd yn rhaid iddyn nhw wario mwy ar ddechrau eu blwyddyn gyntaf ac wedyn ni fydd llawer ar ôl.



- Mae llawer o broblemau wedi codi gyda **Chredyd Cynhwysol**. Mae hwn yn awr yn un taliad. Mae'n debyg y bydd problemau tebyg wrth wneud **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn un taliad.





Bydd llai o arian ar gael ar gyfer help sydd ddim yn help meddygol. Dylai'r **grantiau** fod ar wahân er mwyn i fyfyrwyr gael cefnogaeth bersonol.



Mae'r system bresennol yn gweithio'n dda i fyfyrwyr. Efallai na fyddai ei newid yn beth da i fyfyrwyr.

Roedd pobl oedd ddim yn siŵr am y newid hwn yn dweud:



Pan fydd pobl yn cychwyn cwrs mae'n rhaid iddyn nhw wario llawer o arian. Bydd ar **grant** sengl angen medru talu am hynny.



Does dim gwahaniaeth os byddwch chi'n cael un **grant** neu bedwar **grant**. Y peth pwysig yw bod myfyrwyr yn cael digon o arian i brynu'r pethau sydd eu hangen arnyn nhw.



- Mae'n rhaid cael canllawiau clir ynglŷn â'r ffordd y gall arian gael ei wario.



- Byddai un grant yn well petai myfyrwyr yn dal i fedru cael yr un lefel o help



- Dylai myfyrwyr fedru gofyn am hynny o arian sydd ei angen arnyn nhw. Ni ddylai'r system newydd leihau faint o arian sydd ar gael.

Cwestiwn 2. Ydych chi'n meddwl y gallai pecyn parod o gefnogaeth weithio i fyfyrwyr?



Byddai **pecyn o gefnogaeth** yn cael ei seilio ar y pethau sydd ar y rhan fwyaf o fyfyrwyr sydd ag anableddau arbennig eu hangen. Byddai hyn yn lle rhoi **asesiad o anghenion astudio** i bob myfyriwr.



Asesiad o anghenion astudio yw pan fydd cynghorwr arbenigol yn siarad â chi am eich anabledd. A sut y gallai hyn effeithio ar eich astudiaethau. Byddan nhw'n dweud pa gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arnoch chi.



Roedd y nifer o bobl oedd yn meddwl na ddylai pecyn o gefnogaeth gael ei ddefnyddio yn debyg iawn i'r nifer o bobl oedd yn meddwl y gallai hynny weithio'n dda.

Pethau da y gwnaeth pobl ddweud am hyn:



- Buasai'n rhatach, yn gyflymach ac yn haws i'w drefnu. Cyn belled â'i fod yn glir i fyfyrwyr nad oes raid iddyn nhw dderbyn **pecyn o gefnogaeth** os nad oes arnyn nhw eisiau un.



- Petai e'n cael ei egluro mewn ffordd glir i fyfyrwyr byddai'n ei gwneud hi'n haws cael **grant**.



Byddai'n arbed llawer o amser ac arian petaen ni'n rhoi'r gorau i orfodi pob myfyriwr i gael **asesiad anghenion** pan nad oes arnyn nhw angen un mewn gwirionedd.



Dim ond ar gyfer anhwylderau mwy cymhleth y mae angen **asesiadau anghenion**.



Ar y funud y mae **asesiadau anghenion** yn rhy ddrud. Ac mae'r ffyrdd o wneud yr asesiadau yn wahanol ar draws y wlad. Fel arfer nid yw aseswyr yn dod i wybod pa gefnogaeth y mae'r brifysgol yn ei gynnig. Felly maen nhw'n aml yn argymhell cefnogaeth nad yw'r myfyrwyr ei angen mewn gwirionedd.



Gall myfyrwyr deimlo eu bod yn cael beirniadu pan fyddan nhw'n mynd i gael **asesiad anghenion**. Er bod yr aseswyr yn gefnogol ac yn barod i helpu.



Ar gyfer myfyrwyr sydd â'r un anghenion, byddai'n ddefnyddiol cael cyfarpar a chefnogaeth yn syth. Ond os oes gan fyfyrwr anghenion cymhleth, dylai gael **asediad anghenion**.

Pethau drwg y gwnaeth pobl ddweud am hyn



- Ar y funud y mae myfyrwyr yn cael cefnogaeth bersonol. Ni fyddai **pecyn o gefnogaeth** yn gwneud hyn.



- Byddai'n rhaid i bob myfyriwr ddweud wrth y brifysgol am eu hanabledd er mwyn medru cael **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**. Efallai nad oes arnyn nhw eisiau dweud ac efallai ei fod yn erbyn y gyfraith hefyd.



- Mae staff mewn colegau a phrifysgolion yn brysur. Fuasai'r amser ddim ganddyn nhw i wneud y gwaith ychwanegol hwn. A fuasen nhw ddim yn gwybod sut i wneud y gwaith newydd hwn.



- Efallai na fuasai myfyrwyr yn gallu cael cefnogaeth cyn iddyn nhw ddechrau astudio. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd i fyfyrwyr gan na fyddan nhw'n barod i astudio.



- Byddai llawer o fyfyrwyr yn dewis **pecyn o gefnogaeth** yn lle cael y gefnogaeth lawn sydd ei hangen arnyn nhw. Efallai nad ydyn nhw'n ddigon hyderus i ofyn am asesiad anghenion yn ei le.



- Dylai cefnogaeth ac [asesiadau](#) fod yn barhaus oherwydd gallai anghenion newid.



- Dydy o ddim yn iawn i feddwl ein bod yn gwybod mwy am anghenion cefnogaeth myfyrwyr nag y maen nhw. Efallai bod gan fyfyrwyr sydd â'r un anableddau wahanol anghenion. Mae pawb yn wahanol ac mae cefnogaeth anghenion astudio pob person yn wahanol.



- Dydy o ddim yn gadael i fyfyrwyr gael dweud eu barn ynglŷn â help allai wneud pethau'n well iddyn nhw pan fyddan nhw'n astudio, ac yn dysgu bod yn annibynnol.



- Efallai y byddai myfyrwyr yn cael y math anghywir o gefnogaeth. Mae'n anhebygol y byddai staff yn medru rhagweld pa bethau sydd eu hangen i roi cefnogaeth heb roi [asesiad](#) iawn.



- Mae ar fyfyrwyr sydd ag awtistiaeth angen cefnogaeth bersonol. Ni fyddai [pecyn o gefnogaeth](#) yn gweithio iddyn nhw.



- Nid yw llawer o fyfyrwyr yn ymwybodol o'u hangen am gefnogaeth. Ac nid ydyn nhw'n gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Os ydyn nhw'n cael cynnig **pecyn o gefnogaeth** yn unig efallai na fyddan nhw'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.



- Heb help aseswr efallai na fydd llawer o fyfyrwyr yn sylweddoli sut i ddefnyddio cyfarpar a meddalwedd arbennig yn y ffordd orau iddyn nhw.



- Mae llawer o fyfyrwyr yn treimlo'n well ar ôl siarad am eu hanghenion cefnogaeth â'u haseswr. Efallai na chawson nhw gyfle i wneud hyn o'r blaen



- Fe all **asesiad anghenion** mwy syml fod ar gael ar gyfer myfyrwyr sydd â syniad clir am eu anghenion cefnogaeth. Gallai myfyrwyr sydd heb syniad am eu anghenion cefnogaeth, neu'r myfyrwyr sydd ag anghenion cymhleth, gael **asesiad** mwy manwl.



- Gallen ni gyflymu pethau trwy roi cefnogaeth ar gyfer anghenion cefnogaeth clir yn syth. Yna, trefnu unrhyw gefnogaeth pellach cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

Pethau eraill



- Pwy fyddai'n edrych i weld a yw **pecynnau o gefnogaeth** yn ddefnyddiol i fyfyrwyr? Byddai arnon ni angen ffordd o wneud yn siŵr bod y gefnogaeth hon yn dal i weithio i bobl



- Byddai **pecynnau o gefnogaeth** yn dibynnu ar y labelau sy'n cael eu rhoi i bobl anabl, yn hytrach na'u gweld fel unigolion.



- Efallai y byddai myfyrwyr sy'n astudio gartref angen gwahanol **becynnau o gefnogaeth**.



- Efallai na fyddai myfyrwyr sy'n cael **pecyn o gefnogaeth** yn sylweddoli bod help arall ar gael.




- Pwy fyddai myfyrwyr yn siarad â nhw petai ganddyn nhw broblem â'u **pecyn cefnogaeth**?



- Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod y **pecyn cefnogaeth** yn fwy nag y mae'n rhaid i'r brifysgol ei roi yn ôl y gyfraith yn barod.



- Byddai ar fyfyrwyr angen gwybod am eu **pecyn cefnogaeth** cyn iddyn nhw gychwyn eu cwrs.



- Gallwn ddefnyddio Datganiadau AAA i'n helpu i weld pa anghenion cefnogi sydd gan fyfyrwr.



- Buasai'n dda i fyfyrwyr petai ffordd well o gael eu gwaith papur. Buasai'n dda cael porth ar-lein. A ffordd well o rannu gwybodaeth.



- Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod cefnogaeth yn cael ei chynnig a'i threfnu mewn ffordd debyg yng Nghymru ac yn Lloegr.



- Dylai gwneud prifysgolion yn fwy cynhwysol fod yn rhan o unrhyw newid newydd. Dylen nhw orfod dangos sut y maen nhw'n gweithio ar hyn.

Cwestiwn 3. Pwy ddylai drefnu Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl



Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn dweud **na ddylai** prifysgolion a cholegau drefnu **Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl**.



Ond roedd yr un faint o atebion yn meddwl un ai y **dylai** prifysgolion a cholegau drefnu **Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl** neu doedden nhw ddim yn siŵr y naill ffordd na'r llall.

Pethau da fyddai'n digwydd petai colegau a phrifysgolion yn trefnu Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl



- Os bydd colegau a phrifysgolion yn trefnu **Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl** bydd yn fwy personol. Maen nhw'n well am drefnu'r gefnogaeth hon ac mae'n well gan fyfyrwyr hynny.



- Mae'n haws i golegau a phrifysgolion drefnu i gefnogi myfyrwyr unigol a threfnu hyfforddiant o amgylch dosbarthiadau.



- Bydd pob prifysgol yn gwybod mwy am y problemau y bydd myfyrwyr yn eu hwynebu yn y brifysgol honno.



- Dylai colegau a phrifysgolion wneud yn siŵr eu bod i gyd yn rhoi yr un safon dda o gefnogaeth. Dylen nhw seilio hyn ar y pethau sydd eu hangen ar bob myfyriwr.



- Fel arfer mae myfyrwyr sy'n cael **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn gweld pethau fel trefnu a chynllunio yn anodd. Buasai'n beth da iddyn nhw gael cefnogaeth i wneud cais i'w coleg neu brifysgol am **Lwfans**.



- Bydd canolfannau **asesu** mewn colegau a phrifysgolion yn gwybod mwy ynglŷn â pha gefnogaeth sydd ar gael yn barod. Ac ni fyddan nhw'n awgrymu mathau o gefnogaeth sydd ddim yn bosibl o fewn y coleg neu'r brifysgol honno.

Pethau drwg fydd yn digwydd os bydd colegau a phrifysgolion yn trefnu Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl



- Efallai y bydd myfyrwyr yn cael llai o ddewis.



- Ni ddylai colegau a phrifysgolion wirio eu cefnogaeth i'r anabl eu hunain. Dylai mudiad o'r tu allan wirio eu cefnogaeth bob amser.



- Efallai nad oes gan golegau a phrifysgolion staff sy'n gwybod sut i wneud [asesiadau anghenion astudio](#) yn dda.



- Efallai y byddai colegau a phrifysgolion yn meddwl mwy am ffyrdd o arbed arian ac nid am y ffyrdd gorau i gwrdd ag anghenion eu myfyrwyr.



- Efallai y byddai safon y gefnogaeth yn wahanol mewn gwahanol golegau a phrifysgolion. Dylai bod gennym un set o safonau y mae pob coleg a phrifysgol yn eu dilyn.



- Efallai y byddai myfyrwyr yn teimlo dan bwysau i ddweud wrth y brifysgol neu'r coleg am eu hanabledd.



- Efallai y byddai'n rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio gartref deithio i'r coleg neu'r brifysgol i gael gwasanaethau cefnogi. Gall hyn fod yn anodd i fyfyrwyr anabl.



- Mae'n beth da i ganolfan y tu allan wneud yr **asesiadau anghenion astudio**. Gall myfyrwyr ddewis canolfan sy'n agos at eu cartref. Gall myfyriwr ddewis asesydd sy'n gwybod am eu hanabledd. A gall hyn aros yr un fath trwy gydol eu cwrs.



- Weithiau mae myfyrwyr yn symud i wahanol golegau a phrifysgolion. Pan fydd hyn yn digwydd mae'n haws pan fydd cefnogaeth i'r anabl yn cael ei drefnu gan gefnogaeth y tu allan.



- Mae ar fyfyrwyr angen i'w cefnogaeth fod yn barod ar gyfer yr adeg pan fyddan nhw'n cychwyn eu cwrs. Weithiau maen nhw'n cael cefnogaeth cyn i'w cwrs ddechrau.



- Os bydd myfyrwyr yn dewis eu coleg neu eu prifysgol yn eithaf hwyr efallai na fyddan nhw'n cael eu cefnogaeth mewn pryd.



- Mae'n debygol y bydd prifysgolion a cholegau yn cyfyngu ar y feddalwedd a'r cyfarpar y gall myfyrwyr eu cael oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod am rai eraill. Neu efallai mai dim ond trwydded i ddefnyddio rhai sydd ganddyn nhw.



- Nid yw'n iawn i brifysgolion a cholegau fod yn gyfrifol am drefnu **asesiad**, penderfynu pa gefnogaeth sydd ei hangen ac yna darparu'r gefnogaeth honno. Efallai y byddan nhw'n gwneud eu penderfyniadau oherwydd pethau ar wahân i anghenion y myfyriwr.



- Dylai prifysgolion a cholegau drefnu **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**. Ond dylen nhw weithio gyda phobl eraill fel meddygon teulu, gweithwyr cefnogi a rhieni a gofalwyr.



- Dylai prifysgolion a cholegau wneud yn siŵr eu bod yn gwario'r arian maen nhw'n ei gael ar gyfer trefnu'r **Lwfansau** ar y **Lwfansau'n** unig.



- Dylai myfyrwyr fedru cael gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn hawdd. Mae hwn yn wasanaeth sy'n helpu myfyrwyr siarad drostyn nhw eu hunain a chael pobl i glywed eu lleisiau.



- Efallai bydd myfyrwyr sydd â chefnogaeth yn barod yn gorfod newid at gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu gan eu prifysgol neu goleg. Fyddai hyn ddim yn dda.



- Os bydd prifysgolion a cholegau yn trefnu cefnogaeth, fe fyddan nhw'n defnyddio'r un gwasanaethau. Bydd llai o gystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau i ddarparu cefnogaeth. Ac efallai y bydd safon y gwasanaethau yn mynd yn waeth. Mae'n rhaid cael ffyrdd da o gadw llygad ar safon cefnogaeth.

Roedd pobl oedd yn ansicr ynglŷn â'r cwestiwnhwn yn dweud:



- Dydyn ni ddim yn gwybod beth sy'n digwydd pan fydd myfyrwyr Cymreig yn astudio mewn colegau a phrifysgolion Seisnig.



- Weithiau bydd colegau yn gadael i bobl eraill redeg cyrsiau yn eu hadeiladau. Dydyn ni ddim yn gwybod pwy fuasai'n trefnu'r gefnogaeth i'r anabl ar gyfer y cyrsiau hyn.



- Mae'n beth da cael gwasanaethau wedi'u trefnu gan golegau a phrifysgolion yn ogystal â chanolfannau y tu allan. Mae hyn yn gydbwysedd da ar gyfer myfyrwyr.



- Weithiau ni all colegau a phrifysgolion roi'r math iawn o gefnogaeth. Weithiau allan nhw ddim gwneud hyn yn ddigon cyflym.



- Dylai canolfannau asesu weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr eu bod yn deall pa gefnogaeth sy'n bosibl mewn gwahanol brifysgolion a cholegau.

Cwestiwn 4. Ydych chi'n meddwl y buasai codi ymwybyddiaeth o Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn helpu mwy o bobl gael Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl?



Cytunodd pob ateb i'r cwestiwn hwn y dylen ni ddweud wrth mwy o bobl am **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**.

Pethau da ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth:



- Byddai'n helpu meddygon i ddeall **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn well. Byddai'n haws iddyn nhw roi'r wybodaeth feddygol gywir a byddai hyn yn costio llai i fyfyrwyr.



- Dylai myfyrwyr gael **pasport** i ddangos pa gefnogaeth i'r anabl sydd ei hangen arnyn nhw. Bydd hyn yn eu helpu wrth iddyn nhw fynd trwy addysg.



- Dylai myfyrwyr anabl gael cefnogaeth trwy gydol eu haddysg. Mae hyn yn cynnwys Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl mewn colegau a phrifysgolion.



- Dylai'r broses o gael **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** gael ei gychwyn ar gyfer myfyrwyr sydd ag anghenion tymor hir, heb iddyn nhw orfod gofyn amdany'n nhw.



- Dylai colegau a phrifysgolion ddweud wrth bawb yn eu hysgolion partner am **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**.



- Dylai bod **gweithgor** i helpu i wneud **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn well. Byddai hyn yn cynnwys myfyrwyr a staff o golegau, prifysgolion a mudiadau dysgu cymunedol.

Mae **gweithgor** yn grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd i rannu syniadau a gwneud rhywbeth yn well.



- Mae'n rhaid i ni gofio meddwl am fyfyrwyr hŷn pan fyddwn ni'n dweud wrth bobl am **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**.



- Mae arnon ni angen i bawb ddefnyddio'r un iaith i siarad am gefnogaeth a gwasanaethau. Mae defnyddio gwahanol enwau a thermâu am bethau yn ddryslyd.



- Dylai staff sy'n helpu myfyrwyr i wneud cais am fynd i'r brifysgol ddweud wrth bawb am **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**. A helpu pobl i siarad am anabledd heb gywilydd.



- Nid yw myfyrwyr anabl yn cael digon o amser i wneud cais am gefnogaeth i'r anabl.



- Dylai **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** ddilyn **Model Cymdeithasol o Anabledd**. Ni ddylai bod yn rhaid i fyfyrwyr roi tystiolaeth feddygol am eu anhwylderau. Yn lle hynny dylen nhw ddangos tystiolaeth o'r pethau sy'n gallu eu rhwystro rhag astudio.




Mae **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn dweud mai'r ffordd y mae cymdeithas yn gweithio sy'n rhwystro pobl anabl rhag gwneud pethau. Nid eu anhwylder.



- Os dysgwn ni staff mewn ysgolion a gofal iechyd am **anableddau cudd** byddai mwy o bobl yn defnyddio **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**. **Byddai** hefyd yn dysgu pobl i ddeall mwy am **anableddau cudd**.



Mae **anabledd cudd** yn anabledd na allwn ni ei weld yn hawdd. Mae hyn yn cynnwys awtistiaeth, niwed i'r ymennydd ac epilepsi.



- Byddai'n beth da gwneud canllawiau **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** y gall myfyrwyr fynd â nhw gyda nhw at y meddyg. Byddai hyn yn egluro pa wybodaeth feddygol y mae ar y meddyg angen ei roi.



- Mae arnon ni angen mwy o help pan na fydd yr wybodaeth feddygol rydyn ni'n ei rhoi ar gyfer y **Lwfans i Fyfyrwyr Anabl** yn cael ei derbyn.



- Byddai'n beth da cyflogi pobl i siarad ag ysgolion a meddygon am **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**.



- Dylai pobl glywed o brofiadau myfyrwyr. Gall myfyrwyr ddweud wrth bobl sut y mae'r gefnogaeth ar gyfer anabledd yn helpu.



- Byddai'n beth da cael canllawiau ar y cyfrifiadur sy'n dweud pa wybodaeth a chefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gwahanol anableddau.



- Byddai'n dda i helpu myfyrwyr i ddeall pwy y gall **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** helpu. Nid yw rhai myfyrwyr yn gweld eu hunain yn anabl.




- Mae'n well codi ymwybyddiaeth ynghylch anabledd a sut i gynnwys pawb mewn dysgu. Petaen ni'n gallu gwneud hyn efallai na fyddai myfyrwyr angen cefnogaeth bersonol.

Pwyntiau eraill



- Ni ddylai Llywodraeth Cymru gymryd yn ganiataol mai meddygon yw'r bobl orau i ddweud sut y mae sefyllfa arbennig yn effeithio ar fyfyrwr.



- Dylai bod mwy o wybodaeth glir, hawdd ei deall ynghylch sut i wneud cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl. A sut i drefnu'r gefnogaeth.



- Mae arnon ni angen meddwl am bobl sy'n barod wedi cael cael **asesiadau** a diagnosis ar gyfer eu anhwylder. A pham mae arnyn nhw angen rhoi tystiolaeth i gefnogi eu cais. Mae arnon ni angen edrych hefyd ar bobl na chafodd ddyfarniad Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl ond a oedd yn barod yn cael eu dosbarthu fel rhywun anabl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Atebion eraill

Yr iaith Gymraeg




Ysgrifennodd 15 o bobl ynghylch ffordd y gallai newidiadau i **Lwfansau Myfyrwyr Anabl** effeithio ar yr iaith Gymraeg.

Roedden nhw'n dweud:



- Bod yn rhaid i unrhyw system newydd gynnwys safonau'r iaith Gymraeg.



- Mae angen cael mwy o gefnogaeth ar gyfer braille Cymraeg.



- Bod yn rhaid i bob **asesiad** fod ar gael yn Gymraeg hefyd.



- Efallai y bydd siaradwyr ieithoedd ar wahân i Saesneg ei chael hi'n anodd cael gwybodaeth am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.



- Mae arnon ni angen llawer o bobl sy'n siarad Cymraeg sy'n gwneud **asesiadau**, i wneud yn siŵr nad yw myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn gorfod aros yn hirach.




- Nid yw rhaglenni darllen sgrîn bob amser yn gweithio gyda'r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn gwneud pethau'n fwy anodd os yw'n well gan y myfyriwr siarad Cymraeg.



- Efallai na fydd myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael yr un gefnogaeth â myfyrwyr sy'n siarad Saesneg. Dylai myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg gael cefnogaeth arall i'w helpu.



- Dylai myfyrwyr fedru dewis pa iaith y mae arnyn nhw eisiau ei defnyddio pan fyddan nhw'n dechrau astudio. Ni fyddai myfyrwyr wedyn yn gorfod dweud wrth bobl o hyd beth sydd arnyn nhw eisiau.



- Dylai cyfieithiadau o **asesiadau anghenion astudio** o'r Gymraeg i'r Saesneg fod yn dda ac yn gyflym.



- Mae rhai myfyrwyr Cymraeg yn astudio y tu allan i Gymru. Fyddan nhw ddim yn gallu defnyddio canolfannau siarad Cymraeg sydd i'w cael yng Nghymru yn unig.



- Mae'n rhaid i golegau a phrifysgolion ddilyn rheolau i wneud yn siŵr bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hamddiffyn. Fel nad yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg.

Unrhyw beth arall

Ysgrifennodd 12 o bobl sylwadau eraill. Roedden nhw'n dweud:



- Os byddwn ni'n cael **gweithgor Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** dylai gael mwy o fyfyrwyr yn rhan ohono.



- Nid yw **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn gweithio'n dda. Maen nhw'n rhy ddrud i'w trefnu.



- Mae ar **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** angen newid ond mae'n rhaid i fudiadau weithio gyda'i gilydd i wneud hyn.



- Mae myfyrwyr mewn colegau a phrifysgolion yn cael gwahanol gefnogaeth. Rydyn ni'n meddwl nad yw myfyrwyr coleg yn mynd i'r brifysgol am nad oedden nhw wedi cael digon o gefnogaeth yn y coleg.



- Dylai'r gefnogaeth gael ei seilio ar y **model cymdeithasol o anabledd**. Dylai colegau a phrifysgolion wneud yn siŵr bod pob aelod o staff sy'n gwneud **asesiadau o anghenion astudio** gael eu hyfforddi i'w gwneud.



- Dylai colegau a phrifysgolion wneud yn siŵr bod pawb yn gallu dod o hyd i'w gwasanaethau a'u defnyddio.



- Dylai myfyrwyr gael rhifau adnabod arbennig i fyfyrwyr y gallan nhw eu defnyddio i gael gwasanaethau ar gyfrifiaduron.



- Dylai myfyrwyr gael hyfforddiant ar bethau fel cyfrifiaduron ac offer fydd yn gallu rhoi cefnogaeth iddyn nhw gyda'u hastudiaethau.



- Mae'r rheolau ar gyfer **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl** yn wahanol yng Nghymru i'r rheolau yn Lloegr. Rydyn ni'n meddwl y dylai myfyrwyr gael eu trin yn yr un ffordd yng Nghymru a Lloegr. Dylai'r rheolau fod yn fwy clir.



- Dylai colegau a phrifysgolion wybod os yw myfyrwyr wedi gwneud cais am **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl**. Bydd hyn yn gwneud y broses yn gynt.



- Rydyn ni'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wneud dysgu ac addysgu yn fwy cynhwysol yng Nghymru.



- Mae gwahaniaeth yn yr hyn y mae myfyrwyr anabl a myfyrwyr heb anabledd yn ei gyflawni. Fe ddylen ni weithio i newid hyn.



- Gall anghenion pobl sydd â nam ar y golwg newid dros amser. Weithiau bydd y newid yn fawr. Mae angen cefnogaeth sy'n gallu newid yn ôl yr angen.



- Nid yw popeth yn cael ei gynnwys yn y Lwfansau. Fel llyfrau. Felly mae pobl sydd ddim yn gallu teithio i'r llyfrgell dan anfantais.



- Gall fod yn ddrwg i'ch iechyd meddwl i orfod profi eich bod yn anabl a chael yr hawl i gael cefnogaeth drwy'r amser.



- Mae llawer o ddarparwyr gwasanaeth ar hyn o bryd. Ond gall eu busnesau orfod cau os bydd prifysgolion a cholegau yn dod yn gyfrifol am drefnu cefnogaeth.

Geiriau anodd

Anghenion cymhleth

Gall person sydd ag anghenion cymhleth:

- gael mwy nag un anabledd
- fod â phroblemau iechyd
- fethu â defnyddio geiriau i siarad
- ymddwyn mewn ffordd y mae pobl eraill yn ei chael hi'n anodd delio â hi

Anabledd cudd

Mae anabledd cudd yn anabledd na allwn ni ei weld yn hawdd. Mae hyn yn cynnwys awtistiaeth, niwed i'r ymennydd ac epilepsi.

Asesiadau anghenion astudio

Asesiad o anghenion astudio yw pan fydd cynghorwr arbenigol yn siarad â chi am eich anabledd a sut y gallai hyn effeithio ar eich astudiaethau. Byddan nhw'n dweud pa gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arnoch chi.

Grant

Mae grant yn swm o arian y gallwch chi ei gael a does dim rhaid i chi ei dalu'n ôl.

Gweithgor

Mae gweithgor yn grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd i rannu syniadau a gwneud rhywbeth yn well.

Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae Model Cymdeithasol o Anabledd yn dweud mai'r ffordd y mae cymdeithas yn gweithio sy'n rhwystro pobl anabl rhag gwneud pethau. Nid eu anhwylder

Pecyn o gefnogaeth

Byddai pecyn o gefnogaeth yn cael ei seilio ar y pethau sydd ar y rhan fwyaf o fyfyrwyr sydd ag anableddau arbennig eu hangen. Byddai gan fyfyrwyr yr hawl i ddweud 'na' i becyn cefnogaeth Lwfans i Fyfyrwyr a gallan nhw ofyn am asesiad llawn o anghenion astudio ar unrhyw adeg.